

# ichthus

**CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BERE A NEWYDD, BANGOR**  
Rhif 3 Cyfrol 12 Gorffennaf 2015

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) - 01248 353132 (swyddfa)

---



# **PENNOD NEWYDD BEREA NEWYDD**

# GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT

11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION 5.30: OEDFA'R NOS

**SYLWER:** Bu cam-gysodi yn y Blwyddlyfr ar gyfer mis Medi.

**Gweler y rhifyn hwn o Ichthus i wybod pwy sy'n pregethu ym Merea Newydd ym Medi.**

Bydd ein gweinidog newydd - Y Parch. Ddr. Elwyn Richards - yn cychwyn ar ei waith efo ni ar y Sul cyntaf gan weinyddu'r Cymun yn oedfa'r bore a phregeth am 5.30 p.m.

<b>Awst 2</b>	<i>Undebol Berea Newydd</i> Parch. Robert Capon (bore)	<b>13</b>	Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts
<b>9</b>	<i>Undebol Pendref</i> Parch. John Lewis Jones	<b>20</b>	Parch. Eric Jones
<b>16</b>	<i>Undebol Penuel</i>	<b>27</b>	Parch. Trefor Lewis
<b>23</b>	<i>Undebol Berea Newydd</i> Parch. R.W.Jones	<b>Hydref 4</b>	Gweinidog - <i>Cymun Hwyr</i>
<b>30</b>	<i>Undebol Pendref</i> Parch. Ieuan Lloyd	<b>11</b>	Parch. W. H.Pritchard
<b>Medi 6</b>	Gweinidog - <i>Cymun Bore</i>	<b>18</b>	Diolchgarwch
		<b>25</b>	<i>Undebol Hwyr Penuel</i> Parch Olaf Davies

## DYLETSWYDDAU (BLAENOR Y PYTHEFNOS)

<b>Awst 2</b>	Arfon Evans <i>Undebol Hwyr Pendref</i>	<b>20</b>	Gwyn Jones
<b>9</b>	Maldwyn Thomas <i>Undebol Pendref</i>	<b>27</b>	Gwyn Jones
<b>16</b>	Maldwyn Thomas <i>Undebol Penuel</i>	<b>Hydref 4</b>	Wyn Griffiths <i>Undebol Hwyr Penuel</i>
<b>23</b>	Elin Walker Jones <i>Undebol Berea Newydd</i>	<b>11</b>	Wyn Griffiths <i>Cymun Hwyr</i>
<b>30</b>	Elin Walker Jones <i>Undebol Pendref</i>	<b>18</b>	Delyth Oswy Shaw
<b>Medi 6</b>	Gwilym Roberts	<b>25</b>	Delyth Oswy Shaw
<b>13</b>	Gwilym Roberts <i>Cymun Bore</i>	<b>Tachwedd 1</b>	Menna Baines <i>Undebol Hwyr Berea Newydd</i>

## RHODDWYR Y BLODAU (Cydllynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

<b>Awst 2</b>	Lynn Jones	<b>20</b>	Caren Lewis
<b>9</b>	<i>U Pendref</i>	<b>27</b>	Lis Jones
<b>16</b>	<i>U Penuel</i>	<b>Hydref 4</b>	Menna Leyshon
<b>23</b>	Sarah Buchann	<b>11</b>	Helen Morris
<b>30</b>	<i>U Pendref</i>	<b>18</b>	Delyth Williams
<b>Medi 6</b>	Enid Pritchard	<b>25</b>	Bethan Whittall
<b>13</b>	Liz Roberts	<b>Tachwedd 1</b>	Griff Jones

# NEWYDDION BERE A NEWYDD

---

**Y**n ein rhifyn diwethaf roeddwn yn annog pawb i ddod i bleidleisio i ddangos cefnogaeth i'r Pwyllgor Bugeiliol yn dilyn y drafodaeth a gafwyd gyda'r Parch Ddr Elwyn Richards.

Rwy'n falch iawn o ddweud y cafwyd pleidlais gref o blaid galw'r Parch Ddr. Elwyn Richards atom i fugeilio'r Ofalaeth, sef capeli Abergwyngregyn, Bethania (Felinheli) a Berea Newydd. Erbyn hyn mae'r alwad wedi ei chadarnhau gan yr Henaduriaeth a phob peth mewn trefn i ni gychwyn ar gyfnod newydd.

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu Dr. Richards i'n plith a bydd yr oedfa gyntaf o dan ei ofal ar ddechrau mis Medi sef Medi'r 6ed a bydd Oedfa'r bore yn Oedfa Gymun. Felly gobeithio y bydd nifer dda o'r aelodau yn medru bod yn bresennol i ddangos eu cefogaeth wrth iddo gychwyn ar ei waith.

Bydd hon yn flwyddyn brysur iddo gan ei fod wedi ei urddo'n Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn ystod cyfarfod y Gymanfa yn Aberystwyth yn gynt y mis yma. Bydd hyn yn golygu llawer iawn o gyfarfodydd ychwanegol a theithio i gynrychioli'r Cyfundeb mewn amryw o leoedd gwahanol, pell ac agos. Gofynnwn i bawb felly ystyried hyn a pheidio a rhoi gormod o bwysau ar ein Gweinidog yn ystod y flwyddyn arbennig yma. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ystod blwyddyn ei Lywyddiaeth gan obeithio y caiff flwyddyn ddiramgydd. Gawn ni i gyd gofio amdano yn ein gweddïau.

Teithiodd nifer o'n haelodau i Aberystwyth i ddangos eu cefnogaeth i'r Parch. Elwyn Richards ac roedd yntau yn datgan ei werthfawrogiad o'r gefnogaeth hon o'n plith. Cafwyd colledion eto o blith ein haelodau yn ystod y misoedd diwethaf. Collwyd Mrs. Morfudd Roberts, Delfryn, Ffordd Garth Uchaf. Roedd Mrs. Roberts wedi ei magu yn yr ardal ac wedi bod yn ffyddlon mewn sawl capel yn ardal Bangor. Mae'n cydymdeimlad yn fawr gyda'r meibion a'u teuluoedd yn eu hiraeth. Hefyd collwyd Mrs. Kitty Parry, Lôn Isaf, Porthaethwy, cymeriad annwyl oedd wedi bod yn gefn i'w theulu ar hyd y daith. Rydym yn cofio'n arbennig am Mr. Vic Parry a chydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar adeg y gwyliau rydym yn dymuno'n dda i bawb o ieuencid yr eglwys sydd wedi bod trwy gyfnod yr arholiadau. Dymunwn y gorau i bawb wrth iddynt ddisgwyl am eu canlyniadau ac os oes rhai yn cychwyn am y colegau yn ystod mis Medi yna gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartrefi newydd. Cofiwch amdanom! Byddwn bob amser yn falch o'ch gweld yn ôl yn ein plith pan ddaw cyfle.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad arbennig wedi'r daeargryn yn Nepal.

Cafwyd dros £600 at Apêl Nepal a hyn ar gyfnod o brysurdeb wrth gasglu at Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb o'n plith a gynorthwyodd i baratoi'r Cinio Bara Caws ar ddechrau'r wythnos a'r holl gasglwyr a fu'n mynd o ddrws i ddrws i gasglu'r amlenni Cymorth Cristnogol.


Diolch hefyd am y rhoddion cyson i'r bocs Banc Bwyd yng nghyntedd y capel. Mae'r cyfan yn dangos haelioni mawr ein haelodau o Sul i Sul.



Nifer o aelodau Berea Newydd a deithiodd i Aberystwyth nos Fawrth, Gorffennaf 7fed i gefnogi'r Parch Ddr. Elwyn Richards wrth iddo gael ei urddo'n Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ar gyfer 2015 – 2016.

.....

**OES GENNYCH CHI SYNIAD, SYLW, LLUN NEU UNRHYW  
GYFRANIAD YR HOFFECH EU RHANNU GYDA DARLLENWYR *ICHTHUS*?  
Y 6ed O HYDREF YW'R DYDDIAD OLAF AR GYFER EU DERBYN**



.....

**E-BOST:** [gdeiniol@hotmail.com](mailto:gdeiniol@hotmail.com) neu [capelbera@gmail.com](mailto:capelbera@gmail.com)  
**LLYTHYR:** 4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LY

# FFLACHIADAU O OLEUNI

ANN CORKETT

**Y**n ôl chweched erthygl Eglwys Loegr ‘Y mae’r Ysgrythur Lân yn cynnwys pob peth angenrheidiol i iechydwrïaeth’, ond nid yw hynny’n ein rhwystro rhag dyheu gwybod am y “llawer o bethau eraill a wnaeth Iesu” y sonia Ioan amdanynt ar ddiwedd ei efengyl.

Eto, o ddysgu rhagor am gefndir yr efengylau, ac o geisio dylunio’r golygfeydd yn ein meddyliau, daw pethau newydd i’r golwg, rhai ohonynt yn ennyn yr ymateb “Wrth gwrs! Pam na feddyliais i am hynny o’r blaen?” Dyma ychydig rai:

Yn yr olygfa sy’n arwain at gyffes Simon Pedr, mae’r Iesu’n gofyn i’r disgyblion pwy mae pobl yn dweud ei fod, a’r enw cyntaf a gynigir yw “Ioan Bedyddiwr”. O gofio bod mam yr Iesu a mam Ioan yn gyfnitherod, tybed oedd tebygrwydd rhyngddynt a fyddai wedi cryfhau’r argraff?

Un o hoff straeon llawer yw hanes y ddau ddisgybl ar y ffordd i Emaus, saith milltir o daith o Jerwsalem. Rhaid eu bod yn cerdded yn araf a digalon, gan i ddyn diethr eu goddiweddyd. Wrth iddynt gyrraedd gartref, cafodd y dyn diethr wahoddiad i aros gan ei bod hi’n nosi, ond diflannodd wrth iddynt ei adnabod ar dorri’r bara. Mae sawl cwestiwn yr hoffem gael ateb iddo - ai gwraig Cleophas oedd yr ail ddisgybl? A oedd rhywbeth yn gyfarwydd yn null yr Iesu o dorri’r bara i’w fendithio? Ond y peth oedd wedi fy nharo i oedd i’r ddau ddisgybl gyffroi cymaint fel eu bod nhw, er eu bod ar fin cael swper a mynd i’r gwely, yn cychwyn yn ôl i’r ddinas ar frys, a hithau wedi nosi. Medrais ddychmygu hyn yn well ers imi sylweddoli mai cyfnod Gŵyl y Bara Croyw oedd hi o hyd, a byddent yn cael golau’r lleuad lawn ar gyfer eu taith.

Dywedir bod yr hen Iddewon yn llawer mwy cyfarwydd na ni ag ail-adrodd hanesion ar gof yn fanwl gywir. Gallwn feddwl hefyd bod y disgyblion wedi trafod dywediadau a gweithredoedd yr Iesu ymhlith ei gilydd lawer tro tra ‘roedd yn dal i fod gyda nhw, cyn bod sôn am ysgrifennu’r hanesion, ddegau o flynyddoedd wedyn. Mae un peth y mae’n rhaid eu bod wedi dechrau ei ail-adrodd yn syth, o’r tro cyntaf iddyn nhw ei glywed ac, yn fwy na thebyg, bob dydd wedyn. Cofiaf o hyd y weddi a ddysgodd Mam imi’n blentyn i’w dweud bob nos, felly gallaf gredu bod y disgyblion yn medru adrodd Gweddi’r Arglwydd ar eu cof ymhell cyn digwyddiadau’r Pasg, ac mai dyna un o atgofion cywiraf yr efengylau.

Wel, dyna dair fflach fach o oleuni personol ar yr efengylau. Rhaid bod llawer ohonoch chi, sy’n darllen y Beibl yn fwy rheolaidd na fi, yn medru sôn am bethau tebyg. Efallai nad ydynt yn ddeunydd pregeth nac yn cymryd mwy nag ychydig o frawddegau i’w hadrodd, ond yn golygu llawer i chi’ch hun. A fuasech chi’n barod i’w rhannu?

# CYMORTH CRISTNOGOL 2015

JOHN WYNN JONES

**W**el mae'r cnocio drysau, y cynnig i bobol Bangor roi a'r ymateb wedi digwydd am flwyddyn arall. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r rhai hynny fu'n mynd o gwmpas yn casglu a diolch hefyd yn fawr iawn i bawb a welodd yn dda i roi eto eleni. Yn Merea Newydd llwyddwyd i gasglu £1,672.51 sydd yn swm anrhydeddus ac ym Mangor gyfan casglwyd dros £6500. Deallwn hefyd yng Nghymru gyfan fe gesglir o gwmpas £500,000 at yr achos sydd yn swm rhyfeddol o gofio bod pawb yn teimlo'r wasgfa ac yn gorfod bod yn ddarbodus.

Ethiopia oedd y wlad oedd yn elwa o'r casgliad eleni ac fe gawsom ar ddechrau yr wythnos wasanaeth ym Merea Newydd, dan ofal Anna Jane Evans Swyddog Cyswllt Cymorth Cristnogol, yn rhoi blas inni o waith Cymorth Cristnogol a sut y mae'r gwaith yn newid ffordd o fyw trigolion y wlad. Dilynwyd y Gwasanaeth gan ginio cynnil o fara a chaws ac fe gasglwyd dros £500 o bunnau at yr achos trwy hynny.

Cafodd y swm yma ei chwyddo yn sylweddol gan fod pob cyfrannwr yn cael ei annog i dicio'r blwch Rhodd Gymorth sydd yn golygu bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedyn yn cyfrannu 20% yn ychwanegol i'r swm a gasglwyd.

wythnos  
**cymorth  
cristnogol**

Gwyddom fod llawer yn dod ar ein gofyn yn ystod y flwyddyn trwy lythyr, galwadau ffôn, e-byst ac ambell gnoc ar y drws. Ychydig ohonom a all ymateb i bob un ond o wybod y gwaith anhygoel y mae Cymorth Cristnogol yn ei wneud, beth am neilltuo pot jam gwag a rhoi bob 5c sydd gennych ar ddiwedd y dydd ynddo. Fe fydddech yn synnu faint a gesglir erbyn wythnos Cymorth Cristnogol 2016.

Diolch am y rhoi a pob hwyl ar y celcio.

**BEREA  
NEWYDD  
£1,672.51**

**BANGOR  
£6,500**

**CYMRU  
£500,000**

# CYTÛN BANGOR

DELYTH OSWY

**Mae Berea Newydd yn rhan o ‘glwb’ o tua 13 o eglwysi yn ninas Bangor. Drwy Cytun mae’r eglwysi, bob un a’i thraddodiad ac arddull wahanol, yn rhannu tystiolaeth Gristnogol amrywiol yn ein dinas.**



**G**wnawn rai pethe efo’n gilydd. Yn ddiweddar rydym wedi cynnal ‘Hystings’ ar gyfer etholiad San Steffan, ac eisoes mae cynlluniau ar gyfer Hystings Llywodraeth Caerdydd mis Mai nesaf.

Cynhaliwyd standin weithgareddau yng Ngharnifal Bangor – a diolch i rai o famau ysgol Sul Berea Newydd am helpu efo bwrdd y plant. Mae Bugeiliaid y Stryd a sefydlwyd 3 blynedd yn ôl dan nawdd Cytun yn tyfu. Mae 29 o ‘fugeiliaid’ erbyn hyn yn gwneud wyth patrol bob mis ar strydoedd y ddinas o 10 y nos tan 3 neu 4 y bore. Mae’r bobl ifanc yn nabod y ‘bugeiliaid’ yma, ac yn falch o’u help a’u cwmniaeth yn aml yn y bore bach. Os hoffech chi weld y ‘Bugeiliaid’ ar waith, mae croeso i chi ymuno a nhw fel arsyllwr un noson (neu ran o’r noson o leia!). Mae 180 o lyfrynnau bach o anogaeth Gristnogol yn cael eu dosbarthu yn chwe ysgol gynradd Bangor y mis yma. Mae pob plentyn 11 oed wedi derbyn copi o ‘*Cam Nesaf*’ sy’n dymuno’n dda iddyn nhw wrth iddyn nhw symud o’r ‘ysgol fach’ i’r ysgol uwchradd. Diolch i rai o flaenoriaid Berea Newydd a fu yn Ysgol y Garnedd ar ein rhan efo’r llyfrynnau. Ganol mis Gorffennaf wedyn bu Canu Mawl ar y Pier un pnawn Sul – achlysur blynyddol lle caiff ymwelwyr a thrigolion fwynhau canu cynulleidfaol, efo golygfa hardd y Fenai o’u hamgylch, cyn mynd am baned a sgonsen i’r caffï.

Mae gan yr eglwysi unigol ddogwyddiadau y maent yn gwahodd eglwysi eraill i’w cefnogi – y Crynwyr efo arddangosfa ar Heddwch a Gwaith Dyngarol yn ystod y ddau ryfel byd yn y Gadeirlan ddiweddd Awst; bore coffi Traidcraft ym Mhenuel Sadwrn cyntaf pob mis; ac Eglwys Bedyddwyr Penrallt yn cynnal cwrs Alfa ym mis Medi.


Mewn pwyllgor Cytun diweddar, gweddiwyd yn arbennig dros ddyfodol eglwysi’r ddinas, ac am undod mewn cyfnod ansefydlog. Nid Berea Newydd yn unig sydd wedi colli gweinidog yn ystod y flwyddyn, mae Peter Cousins yn gorffen fel bugail yn Penrallt ym mis Medi; Chrissie Howes yn gorffen yn St Johns (y Methodistaidd) ym mis Hydref, a’r Deon a’r Barch Nia Williams ill dwy wedi gadael tim y Gadeirlan yn ddiweddar. Mae cyfnod newydd o’n blaenau; bydd Elwyn Richards yn cychwyn efo ni yn fuan; y Parch Olaf Davies yn cael ei sefydlu’n weinidog ar Bendref (efo Penuel); a’r eglwysi eraill yn bwrw iddi i geisio arweinwyr newydd.

# GWASANAETH SUL AR AFON DONAW

MARGARET TILSLEY

**B**u Gareth a minnau yn ddiweddar ar daith llong ar afon Donaw, taith yn cychwyn ac yn gorffen ym Mwdapest ac yn ymweld â nifer o leoedd diddorol yn Hwngari, Slofacia ac Awstria a chyn belled â dinas Passau yn yr Almaen. Yno mae afonydd y Donaw, yr Ilz a'r Inn yn cyfarfod, ac yno hefyd, yn yr eglwys gadeiriol, y buom yn gwrandao ar un o'r organau pib mwyaf yn y byd. Roedd naws gerddorol i'r daith, ac aelodau o Festival Opera Llundain, pedwar o gantorion ifanc hwyliog a thalentog oedd eisoes wedi cychwyn ar yrfa lwyddiannus, yn ein diddanu â darnau poblogaidd o fyd yr opera. Mae'n siwr y gwelwn eu henwau eto yn y blynyddoedd i ddod.

Gŵr ifanc yn ei dridegau oedd y person â chyfrifoldeb am drefniadau'r daith ar fwrdd y llong (y 'Cruise Director'), a hwnnw yn un delfrydol ar gyfer y gwaith ym mhob ystyr. Gŵr amryddawn iawn ei dalentau oedd Neil: roedd ganddo radd mewn mathemateg o Brifysgol Manceinion, yn bianydd medrus dros ben yn chwarae pob math o bethau ar y piano, a hefyd yn gallu ein diddanu gyda straeon hynod ddfifyr am





bethau a godai o fywyd ar fwrdd y llong. Hawdd iawn y gallai ennill ei fywoliaeth fel comediwr ar lwyfan!

Ond roedd ochr fwy difrifol iddo yn ogystal. Ar raglen brynhawn Sul y daith roedd Gwasanaeth Sul byr dan ei ofal, peth anarferol mae'n debyg, ac fe ddaeth tua chwarter o'r wyth deg o bobl oedd ar fwrdd y llong i ymuno yn y gwasanaeth. Fe eglurodd mai ar fordaith ar long fawr rai blynyddoedd yn ôl y gwnaeth hyn am y tro cyntaf. Fe fyddai captan ar long felly fel arfer yn cynnal gwasanaeth ar y Sul ond am ryw reswm ni allai wneud ac felly gofynnodd i Neil wneud y trefniadau yn ei le. Fel mae'n digwydd roedd George Carey, cyn Archesgob Caergaint, ar fwrdd y llong er mawr ryddhad iddo, ond mynnodd hwnnw mai'r gŵr ifanc ddylai arwain y gwasanaeth ac felly y bu. Bedydd tân os bu un erioed! Beth bynnag fe baratôdd George Carey daflen iddo ar gyfer trefn y gwasanaeth a honno oedd yr un a ddefnyddiwyd gennym.

Cawsom anerchiad byr effeithiol iawn gan Neil ar 'The Dash', y gwahannod hwnnw a welir rhwng dyddiadau person. Nid dyddiad ei eni na dyddiad ei farw sydd bwysicaf, ond yn hytrach y 'dash', y gwahannod hwnnw yn y canol, yr hyn a wnaeth ac a gyflawnodd yn ystod ei fywyd. Ac roedd ganddo'r ddawn i drosglwyddo'r neges mewn ffordd ddiwyll a difyr. Yn ystod y gwasanaeth hefyd fe ganodd un o unawdwy'r y cwmni opera yr Ave Maria hyfryd gan Gounod, a Neil yn cyfeilio iddi ar y piano.

Emynau adnabyddus Saesneg wrth reswm oedd ar y daflen: 'Lead Us, Heavenly Father, Lead Us', 'Eternal Father, Strong to Save' (sef emyn y morwyr, 'For those in peril on the sea'), ond y cyntaf oedd emyn William Williams Pantycelyn, 'Guide Me, O Thou Great Redeemer', ar dôn Cwm Rhondda. Fersiwn y Morwyr o'r Drydedd Salm ar Hugain oedd y darlleniad, yn dechrau ac yn gorffen gyda'r geiriau: 'The Lord is my pilot; I shall not drift . . . . . Surely sunlight and starlight shall be with me wherever I sail, and at the end of my voyaging I shall rest in the port of my God.' Cawsom hyd iddi ar y we ar ôl dod adref: y Captan John H. Roberts o Gaergybi a'i hysgrifennodd yn 1874, ond ni welais ddim mwy amdano nac ychwaith a oes fersiwn Gymraeg ohoni. Tybed a oes mwy o wybodaeth gan rywun arall?

.....



## **MASNACH DEG**

**Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.**

# RHWNG GWÊN A GWEDDI

BRUCE GRIFFITHS

## GAN Y GWIRION CEIR Y GWIR?

**A**r ddiwedd y Gwasanaeth Diolchgarwch safai'r pregethwr gwadd wrth y drws tra ymlwybrai'r gynulleidfa allan. 'Roedd pawb ond odid yn diolch yn wresog iddo: "Ardderchog!" meddai'r naill; "Diolch yn fawr am y genadwri!" meddai'r llall, ac felly ymlaen. Ond daeth dyn digon blêr yr olwg, ysgwyd llaw'r pregethwr a dweud "Trybeilig, wir!" cyn mynd yn ei flaen. Daeth rhagor i'w longyfarch: "Penigamp!" "Eneiniedig", ac yn y blaen. Ond dyma'r dyn blêr yn ei ôl: "Diflas, diflas dros ben!" meddai a mynd trwy'r drws. Digwyddodd yr un peth eto: y tro hwn, ei sylw fu "Gobeithio na fydd raid inni wrando arnoch chi eto am sbelan go faith", ac i ffwrdd ag o. Holodd y pregethwr Ysgrifennydd y Capel: "Pwy ydy'r dyn rhyfedd yna? Mi ddywedodd bethau digon annifyr wrtha'i!" "O, Mr Davies bach", fu'r ateb, "peidiwch â phoeni, wir, mae 'na rywbeth yn ddiiniwed ynddo fo; dim ond crwydro fydd o ac ail-adrodd yr hyn mae o'n clywed pobl eraill yn ei ddweud".

## BENDITH ARNON NI!

Yr Esgob oedd y gŵr gwadd i ginio yn nhŷ'r ficer. Y oedd y bwrdd wedi ei hulo'n berffaith a golwg flasu iawn ar y cinio. Yr oedd pawb yn barod i gychwyn. Meddai gwraig y ficer wrth ei merch fach chwe blwydd oed: "Siân, wnei di ddweud y fendith, os gweli'n dda". Bu ysbaid braidd yn hir o fudandod. "Tyrd yn dy flaen, 'mach i, dywed ti be' glywaist ti fi'n ei ddweud y bore 'ma". A meddai'r fechan yn uchel "O 'rargian annwyl, pam ar y ddaear wnes i wadd yr Esgob i ginio heno?"



## PWY SYDD WRTH Y DRWS?

Galwodd y Gweinidog heibio un o'r aelodau, a chanodd gloch drws ei thŷ. Clywodd ambell symudiad y tu mewn, ond ni ddaeth neb i'r drws. Cyn mynd, ysgrifennodd ar ddarn o bapur: "Datguddiad III 20" (sef: Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo. Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi ddeuaf i mewn ...) a'i wthio trwy'r twll llythrau.

Y bore Sul wedyn, wrth fynd allan ar ôl

y gwasanaeth, trawodd hithau yn llaw'r gweinidog ddarn o bapur, ac arno'r nodyn "Genesis III 10" (sef: Dy lais a glywais yn yr ardd; a mi a ofnais, oblegid noeth oeddwn, ac a ymguddiais). Casglodd yntau iddi fod yn cael bath ar y pryd!

### **NEWYDDION... O LAWENYDD MAWR?**

Braw i'r aelodau, un nos Sul, fu clywed eu gweinidog yn cyhoeddi y cawsai alwad i fugeilio capel arall ac y byddai yn eu gadael maes o law. Ar ôl y gwasanaeth, chwith ganddo fu cael y pen blaenor, yn y cefn, a'i ben rhwng ei ddwylo, ac yn ei dagrau. Gwnaeth ei orau i'w gysuro: "Buan iawn y cewch chi rywun arall, a digon tebyg y bydd yn llawer gwell na mi". "O na fydd, meddai'r hen ŵr, 'dyna a ddywedodd y gweinidog dwythfa' fu yma, a fu hynny ddim yn wir!"

### **DYDD Y FARN!**

Grymus fu pregeth y Ficer ar y testun "Marwolaeth a Dydd y Farn". Yn ystod y bregeth, meddai "A meddwl y bydd pob un ohonoch chi sy'n byw yn y plwyf hwn yn marw ryw ddydd!". Parodd hyn i ŵr yn y rhes flaen ddechrau chwerthin. Meddai'r Ficer: "Beth sydd mor ddigrif mewn pwnc mor ddirif?" Atebodd yntau "Ha ha! Ficer, 'dw' i'n lwcus - 'dw' i ddim yn byw yn y plwyf yma!"

---

### **"R. R. J." YN TROI AM YR HEN GYNEFIN**

Y mae'r Parch. R. R. Jones, bugail Eglwys M. C., Twrgwyn, Bangor, ers saith mlynedd (Manceinion cyn hynny), wedi dweud wrth ei braidd y bydd yn ymddiswyddo ar fyrder, gan ei fod wedi cydsynio â 'r alwad a gawsai i groesi'r moroedd a bugeilio hen ddiadell ei dad yng Ngwladfa Gymreig Patagonia. Dyma golled am bregethwr da, ac am naturiaeth hynod o hawddgar.

*Y Draford 12 Medi 1919, papur y Wladfa, yn dyfynnu o'r Brython, Lerpwl*

---

## **COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!**

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) / [www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)

# YMWELWYR HAF

WILLIAM OWEN

**W**rth wynebu mis Awst mae'r adeg yn dod pan fydd pobol Bangor yn gwasgaru i bob man. Fel canlyniad mae cryn newid i drefn y capeli yn ystod yr haf. Mae hynny'n wahanol iawn i'r ardal lle ces i fy magu. Ar lannau Meirionnydd ein gwaith ni oedd aros i wasanaethu'r rhai oedd wedi gwasgaru o bob man i ddod yno ar eu gwyliau.

Dim ond am un dyn y gwyddem yn bendant y byddai ar ei wyliau ym mis Awst. Y gweinidog oedd hwnnw. Dyma'r pryd y byddem yn cael enwau gwahanol i lenwi'r pulpud, y rheiny oedd yn dod yno ym mis Awst yn unig. Deuai rhai yn ôl yn rheolaidd bob blwyddyn, ac ar adegau ceid wynebau cwbl newydd.

Ychydig ohonyn nhw yr ydwi'n eu cofio, ond mae dau neu dri o'r enwau wedi aros. Mae'r cyntaf oherwydd fod ei enw mor nodedig. Gallech glywed rhyw siffrwd drwy'r gynulleidfa y nos Sul cynt pan gyhoeddid mai'r Parch Odo Pritchard, Llanfairfechan fyddai'n gwasanaethu am ddeg a chwech yr wythnos ddilynol. Wrth gwrs, roedd y rhan fwyaf yn gwybod yn barod y byddai yno gan fod ei enw yn y llyfr cyhoeddiadau. A doedd y drefn ddim wedi newid ers blynnydoedd beth bynnag.

Deuai i'r pentref ar ei wyliau gan fod ei wraig wedi ei magu yno a'i thad yn flaenor yn y capel. Doedd ganddo ddim gobaith cuddio! Ond roedd yn ddefod mynd i wrando ar Odo. Ymhen blynnydoedd wedyn y dois i ddeall fod fy nhad i a'i wraig o yn perthyn. A deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach y ces i weld mai Ardudwy oedd enw ei chartref hi ac Odo yn Abergwyngregyn.

Mab yng nghyfraith un o fathrawon Ysgol Sul a fu'n dod am gyfnod hefyd, un arall oedd yn methu osgoi'r cyhoeddiad mae'n siŵr. Gŵr Eirwen, merch Mr a Mrs Davies, London House, oedd y Parch James Walters ac roedd yn gorfod torchi ei lewys y tu ôl i gownter y siop yn yr wythnos cyn pregethu i helpu ei dad yng nghyfraith. 'Sgwn i a wyddai bryd hynny fod Edmund Davies, y siopwr, wedi ei glwyfo yng Nghoed Mametz yn y Rhyfel Byd Cyntaf? Doeddwn i erioed wedi clywed am hynny nes gweld dyfyniadau o'i ddyddiadur yn llyfr Gwyn Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* a gyhoeddwyd y llynedd.

Rhyw haf pan oeddwn i'n fachgen ysgol y clywais i gyntaf bregeth gan Cynwil Williams. Myfyriwr oedd bryd hynny ac mi wnaeth argraff ar fy nhad ac arnaf innau. Roedd rhyw fywiogrwydd yn ei lais a'i ymarweddiad, a'i neges yn apelio, a phwy fedrai anghofio'r enw anghyfarwydd. Pan oedd yma ym Merea Newydd dywedais wrtho fy mod yn ei gofio'n pregethu yn Horeb, Dyffryn Ardudwy yn niwedd y

pumdegau. Gyda gwên atgofus cofiai'n iawn am yr achlysur, y fferm lle'r oedd wedi aros a'i fod wedi cyrraedd yno o Aberystwyth ar ei foto-beic. Roedd mynd ar grefydd bryd hynny!

Pethau fel hyn ddaeth i'r cof wrth feddwl beth sydd o'n blaenau ym Mangor yr haf hwn. A oes gobaith am ambell fab yng nghyfraith neu fyfyrwr deudwch?

---

# YR YSGOL SUL A MOLIANT Y PLANT

---

**M**ae'n anodd credu bod tymor arall wedi hedfan heibio ers y Pasg a'r gwyliau haf bellach wedi cyrraedd. Bu'r dosbarthiadau i gyd yn brysur fel arfer. Un o uchafbwyntiau tymor yr haf yn sicr oedd mynychu Moliant y Plant ardal Bangor ac Ogwen yng nghapel Bethania, Y Felinheli, ganol mis Mai, gan ymuno ag aelodau'r capel hwnnw ac oedolion a phlant o gapel Jerusalem, Bethesda. Yr arweinydd oedd Heddwen Lois o Gaernarfon ac o dan ei gofal medrus roedd yr oedfa'n un fywiog a hwyliog, a chystal â sesiwn yn y *gym* unrhyw ddydd rhwng yr holl symud a dawnsio yn ein seddi! Y llywydd oedd Anwen Lynne a hi hefyd oedd wedi hyfforddi plant Bethania ar gyfer eu cyflwyniad gwreiddiol a difyr, o dan y teitl '*Yr Uwch Arwr Uwch Uwch Arwr*' a oedd yn werth ei weld. Cafodd plant y tair eglwys eu gwobrwyo am eu gwaith yn dysgu'r Llafur Cof gan dderbyn tystysgrifau gan Dr Gwilym Roberts o Ferea Newydd. Diolchwyd i'r plant a phawb arall a gymerodd ran gan Ieuan Roberts, Bethania.

Ddydd Sul, 19 Gorffennaf, i gloi'r tymor, cynhaliwyd oedfa wahanol i'r arfer ym Merea yng nghwmni criw bach o blant a'u teuluoedd. Cafwyd darlleniadau, eitemau cerddorol a drama fach ar y thema "Byw fel Iesu, dilyn Iesu, dweud fel Iesu, gwneud fel Iesu". Cafwyd cyflwyniad o "*Agor y Llyfr*" ac anogaeth i ragor ohonom ymuno efo'r tim sy'n mynd â'r efengyl i ysgolion cynradd Bangor.

Bydd yr ysgol Sul yn aildechrau wedi'r gwyliau ar 6 Medi. Mae'r plant a'u hathrawon yn rhannu yn llawenydd cyffredinol yr eglwys fod gennym bellach weinidog newydd yn yr ofalaeth, ac edrychwn ymlaen at gael cyfarfod y Parchedig Ddr Elwyn Richards a fydd yn cynnal ei oedfa gyntaf gyda ni fel gweinidog ar y Sul hwnnw.

Bydd trip yr Ysgol Sul ar y Sul canlynol, 13 Medi, pan fyddwn yn mynd i Gelli Gyffwrdd.

Pob hwyl i'r plant i gyd, a'u teuluoedd, dros y gwyliau ac fe'ch gwelwn ym mis Medi.

# Y DAITH FAWR

MEILYR JONES

**Ym mis Ebrill bu hanner cant o ddisgyblion Ysgol Tryfan ar daith fyth gofiadwy i Washington ac Efrog Newydd. Roedd nifer o bobl ifanc Berea Newydd a Bethania yn eu plith. Dyma fy argraffiadau o wythnos lawn a chyffrous.**

**R**oedd yn rhaid cychwyn yn fuan ar fore Dydd Iau i fynd tua'r UDA, gyda'r bws yn cychwyn am 4 o'r gloch y bore. Er ein bod wedi blino yn y maes awyr, wrth ddisgwyl i fynd ar yr awyren roedd gan un ohonom lygaid digon craff i sylwi ar bêl-droediwr enwog yn disgwyl am yr awyren gyda ni, Andriy Shevchenko, y chwaraewr pêl-droed o'r Iwcrain, y gorau yn ei ddydd. Cyffro cyn camu ar unrhyw awyren!



#### DIWRNOD 1:

Ar ôl bod yn yr awyren am 8 awr roedd pawb yn falch o lanio yn yr UDA. Roedd hi'n tynnu gyda'r nos ac roedd pawb yn llwgu, felly ein stop cynta yn America oedd McDonalds a phawb yn ysu i weld maint eu prydau!

#### DIWRNOD 2:

Dechreuodd yr ail ddiwrnod gyda thaith dywys o gwmpas Washington gyda thywysydd o'r enw Clark. Buom yn ymweld ag amryw o leoedd enwog gan gynnwys y Tŷ Gwyn, cofeb George Washington a gorsaf yr Undeb. Yn y prynhawn aethom o amgylch amgueddfeydd y Smithsonian gan gynnwys yr Amgueddfa Wyddoniaeth a'r Gofod; ac Amgueddfa Hanes America. Gyda'r nos aethom i weld gem pêl-fasged rhwng y Washington Wizards a'r Charlotte Hornets, roeddem wedi dewis gêm werth chweil i fynd i'w gweld wrth i Washington guro ar ôl dau gyfnod o amser ychwanegol!

#### DIWRNOD 3:

Ar y trydydd diwrnod aethom ar daith gerdded 8 awr o gwmpas Washington, ia, 8 awr! Roedd y trip yn cynnwys mynd i weld mynwent Arlington, gweld cofeb Abraham Lincoln, cofeb milwyr Korea a Vietnam ac ymweld a'r Pentagon. Ar ôl yr holl gerdded roeddem wrth ein bodd yn eistedd lawr i fwyta yn yr Hard Rock Café.

#### DIWRNOD 4:

Teithio i Efrog Newydd heddiw, ond ar y ffordd cawsom daith dywys o amgylch Gettysburg, lle bu brwydr fwyaf Rhyfel Cartref America. Cyrhaeddsum 'Yr Afal Mawr' gyda'r nos ac roedd pawb wedi rhyfeddu wrth weld yr holl adeiladau anferth! Cawsom gwpl o oriau i fynd o gwmpas Times Square gyda'r nos, profiad ynddo'i hun!

#### DIWRNOD 5:

Cawsom daith dywys 8 awr arall heddiw o gwmpas Efrog Newydd gan ymweld ag amryw o leoliadau diddorol megis Central Park, gorsaf Grand Central, Wall Street, a chanolfan Rockefeller.

#### DIWRNOD 6:

Drannoeth aethom ar y cwch tuag at ynys Ellis i weld y Statue Of Liberty, yn y prynhawn aethom yn ôl i ganol Efrog Newydd ac ymweld ag amgueddfa newydd 9/11. Gyda'r nos aethom am fwyd i Ellen's Stardust Diner gan gael sioe gan y gweinyddion, dipyn o brofiad! Wedi bwyta, aethom i fyny'r Empire State a chael gweld Efrog Newydd o'r awyr yn ei gyfanrwydd!

#### DIWRNOD 7:

Ar y diwrnod olaf cawsom amser i wneud dipyn bach o siopa munud ola yn yr enwog Fifth Avenue yn rhai o siopau mwyaf y byd. Roedd pawb wedi blino yn lân ar y ffordd nôl i Fangor ar ôl wythnos y byddwn yn ei chofio am byth!

# PAM DWI'N MWYNHAU CIC BANG

GWION SIÔN

**B**ob nos Lun rwyf yn mynd i Cic Bang. I'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn gwybod, clwb ieuenticid capeli Bangor ydi Cic Bang. Rwyf yn cael llawer o hwyl yno gyda rhai o'm ffrindiau, yn chwarae pêl-droed, gemau bwrdd, tennis bwrdd a llawer mwy.

Os bydd tywydd yn braf yna allan â ni i chwarae gemau pêl ac os bydd tywydd yn wael yna mae Dilwen yr arweinydd yn meddwl am bob math o gemau gwahanol i'w chwarae dan do yn y festri yng Nghapel Bera Newydd. Pêl-droed bwrdd a hoci gyda ffyn cardfwrdd yw'r ffefrynnau.

Weithiau cawn sgysiau a dysgu am ffeithiau difyr fel cyflymder golau. (Mae hynny'n union 299,792,458 metr yr eiliad gyda llaw.) Mae gwneud yr holl weithgareddau yn gallu bod yn waith sychedig a chawn ddiod i'w yfed neu weithiau siocled neu dda-da i'w bwyta.

Tua dwsin o griw sy'n mynychu'n rheolaidd. Rydym yn gymysgedd o blant capeli Bera Newydd a Phendref/Penuel. Mae pawb yn adnabod ei gilydd yn barod gan ein bod i gyd yn ddisgyblion blynyddoedd 7-9 yn Ysgol Tryfan. Er mai yng Nghapel Bera y byddwn yn cyfarfod fel arfer, cawsom ymweliad â Chapel Penuel yn gynharach yn y flwyddyn.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn eleni oedd cael mynd ar drip i'r Hwylfan yng Nghaernarfon ym mis Mai. Lle chwarae i blant ydi'r Hwylfan. Mae yno sleids, rhwydi dringo, twneli, a phwll peli ymysg pethau eraill ac mae'r cyfan dan do. Handi iawn o ystyried tywydd yr ardal! Cawsom lwyth o hwyl yn yr Hwylfan – mae'n enw addas iawn!

Bydd Cic Bang yn cael saib dros yr haf wrth i'r ysgolion gau am y gwyliau. Rwyf i a gweddill y criw yn edrych ymlaen i gael gweld pa gemau a gweithgareddau fydd yn ein disgwyl ym mis Medi!



Uchod: Rhai o griw Cic Bang  
Isod: Dilwen ac Arfon, y ddau ddiwyd sy'n gofalu am Cic Bang bob nos Lun



# CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES



## MEINDIWCH EICH BUSNES?

Wedi swpera mewn gwesty un noson, roedd pedwar dyn busnes - hoelion wyth eu heglwysi - yn sgwrsio gyda'u gilydd. Trodd y sgwrs at onestrwydd, a chytunodd pob un i ddatgelu ei wendid cudd personol. Dyma sut yr aeth y sgwrs.

Dyn 1) "Weithiau, pan oddi cartref ar fusnes, mi fyddai'n ymweld â chlybiau eithaf amheus."

Dyn 2) "Mae pawb yn meddwl na fyddai byth yn cyffwrdd yn y ddiod gadarn, ond weithiau, tra byddai oddi cartref, mi fyddai'n meddwi'n chwil gaib!"

Dyn 3) "Does 'na neb yn gwybod bod gennyf broblem gamblo - fedra'i ddim aros draw o'r bwcis."

Dyn 4) "Does na 'run ohonoch yn mynd i hoffi hyn, ond fy ngwendid i ydi 'mod i'n un drwg iawn am gario straeon!"

## PERYGLON BOD YN RHY EIDDGAR

Yn ystod storm enbyd, trawodd cwch yn erbyn creigiau a dechrau suddo.

"Oes rhywun yma'n gwybod sut i weddio?" bloeddiodd y Capten uwchben swm y gwynt.

"Ydw, mi ydw i!" gwaeddodd yr unig Gristion oedd ar fwrdd y llong gan neidio i'r blaen.

"Da iawn" meddai'r Capten "Gweddia di tra bo'r gweddill ohono ni'n yn gwisgo'r siacedi bywyd - rydyn' ni un yn brin!"

## GORMOD O WYLIAU?

Roedd teulu wedi gwahodd y Gweinidog am ginio Sul. Tra bu'r gwestai yn gweddio cyn dechrau bwyta, gofynnodd y plentyn bach i'w fam pam roedd y Gweinidog yn cael wyth wythnos o wyliau'r flwyddyn tra na chai ei dad ond hanner hynny?

"Wel, os ydi o'n weinidog da" atebodd ei fam, "mae arno ei angen o. Ar y llaw arall, os nad 'di o ddim yn un da, mae ar y gynulleidfa ei angen o!"

# SALM AC EMYN

---

	SALM	EMYN
<b>6 MEDI</b>	Lois Medi Wiliam 148	Llio Eurgain Williams 411
<b>13 MEDI</b>	Siwan Huw Williams 100	Efa Huw Williams 422
<b>20 MEDI</b>	Gwen Roberts 300	Rhys Roberts 406
<b>27 MEDI</b>	Gwion Siôn 1	Ifan Siôn 402
<b>4 HYDREF</b>	Guto Davies 84	Rhys Owen 399
<b>11 HYDREF</b>	Tomos Lynch 92	Meilyr Lynch 387
<b>18 HYDREF</b>	GWASANAETH DIOLCHGARWCH	

---

## **Diolch yn fawr am eich cyfraniad.**

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,  
hysbysu Kathy - [kathysion@btinternet.com](mailto:kathysion@btinternet.com) neu 364957. Diolch.

---

**COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!**

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) / [www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)

# Y DIGWYDDIADUR

---

## AWST

---

Y Crynwyr: arddangosfa ar Heddwch a Gwaith Dyngarol  
yn ystod y ddau ryfel byd yn y Gadeirlan ddiwedd Awst

---

## MEDI

---

Bore Sadwrn cyntaf yn y mis ym Mhenuel - coffi a  
stondinau Traidcraft

---

### Gwener 11eg, 7yh

Cyfarfod Sefydlu'r Parchedig Olaf Davies  
Eglwys Annibynnol Pendref, Stryd Fawr, Bangor

---

### Medi 6ed

Yr Ysgol Sul yn ail ddechrau

---

### Medi 13eg

Trip Ysgol Sul: Y Gelli Gyffwrdd  
Eglwys Bedyddwyr Penrallt: Cwrs Alfa ym mis Medi

---

## HYDREF

---

Bore Sadwrn cyntaf yn y mis ym Mhenuel - coffi a  
stondinau Traidcraft

---

### Iau 8fed, 7yh

Cymdeithas Lenyddol Berea Newydd  
Karen Owen: 'Glanio' (Hanes teithio Patagonia gyda  
Mererid Hopwood). Llywydd: William Owen

---

### Sul 18fed

Gwasanaeth Diolchgarwch

---

## TACHWEDD

---

Bore Sadwrn cyntaf yn y mis ym Mhenuel - coffi a  
stondinau Traidcraft

---

### Iau 12fed, 7yh

Cymdeithas Lenyddol Berea Newydd  
Enid Griffith, Porthaethwy: Cerddoriaeth ac ati

---

## RHAGFYR

---

Bore Sadwrn cyntaf yn y mis ym Mhenuel - coffi a  
stondinau Traidcraft

---

### Iau 10fed, 7yh


Cymdeithas Lenyddol Berea Newydd  
Brethyn Cartref: Darnau Ohonof gyda William Owen,  
Eleri Wyn Jones (Cam o'r Garnedd) ac Astra Thomas.  
Llywydd: Arfon Evans

---

# DYSGU AR GOF - A CHYFANSODDI

FFLUR EDWARDS

Mae'n amlwg fod plant Berea Newydd yn rhai da nid yn unig am ddarllen emynau yn yr oedfa ond am eu dysgu hefyd. Yn fwy na hynny mae rhai ohonynt yn cyfansoddi eu cerddi bach eu hunain!



Fy Enw i yw taten fy  
Enw i yw Pys fy Enw i  
Yw moron a tom aeg.

Y mae genyf drysor  
trysor mwy na'r byd  
yn yr Iesu hawddgar  
Cyfaill Plant y byd.

Tatws tatws yn tyfy  
yn y Pridd Tatws  
tatws mae nhw'n iach  
i chi.

Dyma'r lluniau a wnaeth Fflur Edwards, 6 oed o Lanfair-pwll, ar ôl mynd adre o'r capel un dydd Sul yn ddiweddar, a hithau wedi darllen emyn yn yr oedfa. Sylw ei thad oedd "Dwi'n meddwl mai dyma'r tro cynta' i emyn gan Lewis Valentine ymddangos rhwng dwy gerdd am datws a moron."